# Sgiliau, Llwybrau a Galwedigaethol
# System Mewnbynnu Marciau
# Asesiad Mewnol
# Canllaw
# Cam wrth gam

Fersiwn 4.0

# Cynnwys

Mewngofnodi ar Wefan Ddiogel CBAC ........ 2
Mewnbynnu Marciau'r Ymgeiswyr ........ 5
Cyflwyno Canlyniadau i CBAC ........ 10
Cynhyrchu'r Sampl ........ 12
Edrych ar Ymgeiswyr y Sampl ........ 14
Ychwanegu Ymgeiswyr Ychwanegol at y Sampl ........ 15
Argraffu Adroddiadau ........ 15
Newid marciau ar ôl eu cyflwyno ........ 17
Uwchlwytho Electronig IAMIS ........ 21
Adroddiadau Cymedrolwyr ........ 22
Llinell Gymorth ........ 23
Atodiad 1 – Creu/Newid cyfrifon eilaidd ........ 24
Atodiad 2 – Pynciau i'w huwchlwytho i IAMIS ........ 28
Atodiad 3 – canllawiau pellach ar uwchlwytho i IAMIS ........ 33


Noder: bydd y ddogfen hon yn cael ei newid o dro i dro. Ni fydd copi caled o'r ddogfen hon yn cael ei ddosbarthu eto ond bydd y fersiwn diweddaraf i'w gael ar y wefan CBAC/EDUQAS.

# Mewngofnodi i'r Porth

I gael mynediad at y daflen farciau electronig ar-lein, bydd rhaid i chi fewngofnodi i safle Porth CBAC gan ddefnyddio'r URL canlynol:

**[http://www.porth.cbac.co.uk](http://www.porth.cbac.co.uk)**

Bydd y sgrin ganlynol i'w gweld:





Bydd aelodau staff priodol yn cael eu gwahodd i'r Porth gan eu Swyddog Arholiadau yn eu canolfan.

Mewnbynnwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair a chliciwch ar y botwm 'Mewngofnodi'.

Ar ôl i chi ddilysu trwy Ddilysu Aml-ffactor, bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos. Cliciwch ar y botwm 'Pob gwasanaeth' yn y gornel chwith uchaf.





Unwaith y byddwch yn clicio ar Pob Gwasanaeth, bydd dewislen yn ymddangos. O'r fan hon mae angen i chi ddewis 'Arholiadau ac Asesiadau' o'r bar ar yr ochr chwith. Yna dewiswch Mewnbynnu Marciau o dan y pennawd IAMIS.





Os nad yw'r uchod yn weladwy, bydd angen i'r Swyddog Arholiadau newid math eich cyfrif. Cysylltwch â'ch Swyddog Arholiadau yn eich canolfan ar gyfer hyn.
Ar ôl i chi fewngofnodi'n llwyddiannus, bydd y sgrin ganlynol i'w gweld:

# System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol





Bydd rhestr o bynciau/unedau i'w gweld ar y sgrin hon, a bydd angen i chi fewnbynnu marciau gan ddefnyddio'r system ar-lein.

Bydd y sgrin hon hefyd yn dangos nifer yr ymgeiswyr nad yw eu marciau wedi'u mewnbynnu.





## Mewnbynnu Marciau'r Ymgeiswyr

Cliciwch ar y botwm “Rhoi marciau i mewn” sydd gyferbyn â’r Pwnc a’r Papur priodol ar y sgrin.




Bydd gwneud hyn yn cynhyrchu rhestr o’r ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer y pwnc/papur hwn, fel y dangosir isod.






Cliciwch ar y gwymplen yn y golofn "gradd" i nodi canlyniadau "Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth, Absennol" yn ôl yr angen.


**D.S. Bydd botwm manylion Cymedrolwr yn dangos ar y sgrin ond mae'n anweithredol ar gyfer pynciau uwchlwytho IAMIS.**

Darllenwch y canllaw cam wrth gam cyffredinol yma.

Argraffwch y canlyniadau rydych wedi'u mewnbynnu i'w gwirio wrth fynd ymlaen.

Os oes mwy na 20 ymgeisydd mewn canolfan, byddant yn cael eu dangos ar dudalennau ar wahân.

Mae'r gwymplen â'r label 'Dangos' yn rhoi dewis o 'Bob un' (y gosodiad diofyn), neu 'Wedi'u marcio' neu 'Samplau', Pan ddewisir 'Pob Un', dangosir pob ymgeisydd ar y sgrin. Pan ddewisir 'Wedi'u Marcio', dim ond yr ymgeiswyr hynny y mae eu marciau wedi'u mewnbynnu fydd yn cael eu dangos. Pan ddewisir 'Sampl', dim ond yr ymgeiswyr hynny sydd wedi'u dewis yn y sampl fydd yn cael eu dangos.



## Ymgeiswyr Absennol

Er mwyn dangos bod ymgeisydd yn absennol, tabiwch neu cliciwch i mewn i’r golofn gradd a dewiswch 'absennol'.  Bydd hyn yn newid pan fyddwch yn gadael y golofn. Bydd neges o rybudd yn ymddangos yn nodi 'dalier sylw, dim ond os yw ymgeisydd yn absennol y dylid defnyddio ABSENNOL' yn gofyn i chi gadarnhau bod yr ymgeisydd hwn yn Absennol.

## Ymgeiswyr Hwyr

Os nad yw ymgeisydd yn ymddangos ar y sgrin hon yna nid yw wedi’i gofrestru eto. Os yw athrawon am fewnbynnu marc unrhyw ymgeisydd nad yw’n ymddangos ar y rhestr ar y dudalen we, dylid gofyn i’r Swyddog Arholiadau gyflwyno’r cofrestriad ar unwaith (ar yr amod ei bod o fewn y cyfnod cofrestru a chyflwyno newidiadau o hyd). Dylai athrawon adael 72 awr ar ôl rhoi'r cofrestriad i mewn cyn rhoi cynnig ar fewnbynnu'r marc.  Os ceir nifer bach yn unig o ymgeiswyr cofrestriad hwyr, gellir dewis y sampl ac ychwanegu’r marc wedi hynny.


## Chwilio am Enw Ymgeiswyr

Mae cyfleuster yn y system i chwilio am ymgeiswyr yn ôl enw.  I ddefnyddio’r cyfleuster hwn, cliciwch yn y blwch wedi’i labelu ‘Chwilio am ymgeiswyr’, rhowch gyfenw’r ymgeisydd rydych am ei ganfod, a chliciwch ar y botwm ‘Chwilio’.

## Os nad yw’r Cyfleuster Cyflwyno ar gael

Mae angen cwblhau pob ymgeisydd cyn i’r dewis cyflwyno fod ar gael. Ar y sgrin rhoi marciau i mewn newidiwch "dangos" i "pawb" er mwyn amlygu'r ymgeiswyr y mae angen mewnbynnu marciau ar eu cyfer o hyd.


I ddychwelyd i'r sgrin gyntaf sy'n dangos pob pwnc/papur, Cliciwch ar y botwm 'Cadw a Chau'.  Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg.



# Cyflwyno Canlyniadau i CBAC

Ar ôl i chi roi'r marciau i mewn a'u cadw, byddwch yn gallu golygu unrhyw farciau cyn eu cyflwyno i CBAC.


Cliciwch ar 'Rhoi marciau i mewn 144 wedi'u gwneud, 0 ar ôl' i fynd yn ôl i sgriniau'r pwnc a newid unrhyw fanylion.




Ni fydd y botwm sy'n dangos 'dim marciau i'w cyflwyno' ar y dechrau yn newid tan y bydd marciau'r holl ymgeiswyr wedi'u mewnbynnu.

Ar ôl cwblhau un pwnc/papur, bydd nodyn atgoffa'n ymddangos i ddweud bod angen cyflwyno'r marciau hyn ac edrych ar y samplau. Os yw'r holl wybodaeth yn gywir, rhaid i chi glicio ar 'Cyflwyno marciau a dethol y samplau' i ddethol sampl.

Bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos cyn i chi gyflwyno eich marciau'n derfynol.




## Dethol samplau

Ar ôl i chi nodi'r holl ganlyniadau a'u cyflwyno gallwch glicio ar y cyswllt canlynol i fynd yn ôl ac edrych ar eich sampl.


Ar ôl cyflwyno'r canlyniadau i CBAC ni fydd modd newid yr hyn a ddyfarnwyd i ymgeiswyr ar-lein. Fodd bynnag, gellir cyflwyno cais i newid canlyniad drwy anfon neges e-bost at llwybrau@cbac.co.uk

Gellir defnyddio'r botwm "argraffu" ar unrhyw adeg, fodd bynnag, i edrych ar y samplau/argraffu'r marciau a gyflwynwyd.



Bydd clicio ar y botwm “cyflwyno’r marciau a dethol y sampl” yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, bydd y marciau’n cael eu cyflwyno i CBAC. Yn ail, bydd y system yn cyfrifo’r sampl.

Unwaith y bydd y botwm wedi’i glicio bydd ‘<u>Pob Marc wedi’i gyflwyno</u>’ yn ymddangos.





Bydd y cyfleuster ‘Edrych ar samplau’ yn weithredol ar unwaith.

Cliciwch ar '<u>edrych ar samplau</u>' i weld pa ymgeiswyr y gofynnwyd am eu gwaith.

## Edrych ar ymgeiswyr y sampl

Nodwyd ymgeiswyr y sampl ar ochr dde'r sgrin.




Os yw'r sampl yn cynnwys ymgeisydd sydd â'i waith yn anghyflawn neu ar goll, yna dylai'r athrawon pwnc ddynodi'r ymgeisydd agosaf ar y system (naill ai'n uwch neu'n is) y mae ei waith yn gyflawn. **Ni ddylid uwchlwytho'r gwaith anghyflawn. Dylid ysgrifennu at CBAC i'w hysbysu y dylid newid y marc hwn i absennol.**

Ni fydd y system yn caniatáu i athrawon pwnc "ddileu" ymgeiswyr o'r sampl fydd wedi'i ddewis. Fodd bynnag, bydd y system yn caniatáu i ganolfannau ychwanegu ymgeiswyr "ychwanegol" gan ddefnyddio'r cyfleuster blwch ticio.


Rhaid anfon nodyn o eglurhad at y cymedrolwr gyda'r ffolderi os yw'r sampl y bydd y ganolfan yn ei anfon yn wahanol i'r sampl a ddewiswyd gan y system.

*D.S. gellir uwchlwytho nodyn o esboniad ar gyfer y cymedrolwr dros y system ar gyfer unrhyw bynciau i'w huwchlwytho ar IAMIS*

## Ychwanegu ymgeiswyr ychwanegol at y sampl


Newidiwch yr hyn sydd i'w weld i '<u>dangos pob ymgeisydd</u>'.


Cliciwch ar y blwch ticio ar gyfer yr ymgeisydd ychwanegol. Ni allwch dynnu ymgeiswyr a ddewiswyd gan y system.




## Argraffu Adroddiadau

Mae'r botwm 'GWELD/ARGRAFFU>' ar frig y sgrin yn ddewis fydd yn argraffu pob ymgeisydd ar gyfer pwnc/papur. Pan fydd hwn wedi'i ddewis, trwy glicio ar y pwnc/papur gofynnol ar y sgrin ganlynol, bydd modd edrych ar y manylion/eu hargraffu yn nhrefn rhif yr ymgeisydd.





cbac wjec

CARTREF | COFRESTRIADAU | ASESIADAU MEWNOL | GOFYNION ARBENNIG | CANLYNIADAU | ADNODDAU | BAGLORIAETH CYMRU | PORTH GWEINYDDU CANOLFANNAU CGC

Llofnodi mewn fel [redacted] English | Gweinyddu'r Cyfrif | Telerau & Amodau | Logio Allan

MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAD MEWNOL - ADRODDIADAU

<< YN ÔL

| | |
|---|---|
| 1 | Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 PROJECT UNIGOL N/F PROJECT (90S9U1) |
| 2 | Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 MENTER A CHYFLOGADWYEDD N/F CHALLENGE 1 (90S9U2) |
| 3 | Edrych ar/Argraffu i LLWYBRAU MYNEDIAD MEHEFIN 2023 CYMRAEG GWRANDO A DEALL ERAILL COURSEWORK (6366/E2) |
| 4 | Edrych ar/Argraffu i LLWYBRAU MYNEDIAD MEHEFIN 2023 CYMRAEG DARLLEN A DEALL TESTUNAU COURSEWORK (6367/E2) |
| 5 | Edrych ar/Argraffu i LLWYBRAU MYNEDIAD MEHEFIN 2023 YSGRIFENNU YN GYMRAEG COURSEWORK (6369/E2) |
| 6 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 CYMRAEG AIL IAITH UNED 1 UNIT 1 (3020U1) |
| 7 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 CYMRAEG AIL IAITH UNED 2 UNIT 2 (3020U2) |
| 8 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 HANES UNED 4 UNIT 4 (3100UN) |
| 9 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 DDIGIDOL TECHNOLEG UNIT 2 NEA (3540U2) |
| 10 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 DDIGIDOL TECHNOLEG UNIT 3 NEA (3540U3) |
| 11 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 ADDYSG GORFFOROL UNIT 2 NEA (3550U2) |
| 12 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 BWYD A MAETH UNIT 2 NEA (3560U2) |
| 13 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 IECHYD CYMDEITHASOL GOFAL PLANT 4 UNIT 4 (3570U4) |
| 14 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 D&T (DYLUNIO CYNNYRCH) UNIT 2 (3603U2) |
| 15 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 CELF, CREFFT A DYLUNIO UNIT 1 PORTFOLIO (3650U1) |
| 16 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 CELF, CREFFT A DYLUNIO UNIT 2 EXTERNALLY SET (3650U2) |
| 17 | Edrych ar/Argraffu i TGAU MEHEFIN 2023 CERDDORIAETH UNIT 1 PERFORMING (3660U1) |

Mae'r gorchymyn '<u>ARGRAFFU></u>' ar gael ar sgrin y pwnc hefyd. Bydd rhagolwg o'r allbrint yn ymddangos fel y gwelir isod. Gallwch ddewis y botwm 'Argraffu'r adroddiad hwn' ar frig y dudalen ar yr ochr chwith.



cbac wjec

CARTREF | COFRESTRIADAU | ASESIADAU MEWNOL | GOFYNION ARBENNIG | CANLYNIADAU | ADNODDAU | BAGLORIAETH CYMRU | PORTH GWEINYDDU CANOLFANNAU CGC

Llofnodi mewn fel [redacted] English | Gweinyddu'r Cyfrif | Telerau & Amodau | Logio Allan

ARGRAFFU'R ADRODDIAD HWN

ADRODDIAD MANYLION YMGEISYDD

LLWYBRAU MYNEDIAD MEHEFIN 2023 YSGRIFENNU YN GYMRAEG COURSEWORK (6369/E2)

CANOLFAN: 68662

| # | Rhif yr Ymgeisydd | Enw | DG | Gradd | Sampl |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4[redacted] | [redacted] | 010607 | | |
| 2 | 4[redacted] | [redacted] | 010107 | | |
| 3 | 4[redacted] | [redacted] | 271206 | | |

## Newid Marciau ar ôl eu cyflwyno

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno trwy IAMIS ni ellir eu newid gan y ganolfan. Os sylwir bod marc anghywir wedi'i gyflwyno, yna rhaid i ganolfannau lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais.
Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at y Canllaw Asesu Mewnol

https://www.cbac.co.uk/media/dq3mvrwa/internal-assessment-a-guide-for-centres-2024.pdf

### MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAD MEWNOL

EDRYCH AR / ARGRAFFU | CANLLAW CAM WRTH GAM

**INFO :** Cofiwch gyflwyno'r marciau/canlyniadau rydych wedi'u rhoi i mewn drwy glicio ar y botwm CYFLWYNO MARCIAU/CANLYNIADAU uchod fel y nodir yn y canllawiau.

Gall canolfannau fewnbynnu marciau/canlyniadau i ymgeiswyr ar y dudalen we ar yr amod bod y cofrestriad wedi'i gyflwyno i CBAC, ac wedi'i brosesu ganddo.

Os hoffai athrawon fewnbynnu marc/canlyniad unrhyw ymgeisydd nad yw wedi'i restru ar y tudalen gwe, dylid gofyn i'r swyddog arholiadau gyflwyno'r cofrestriad cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y swyddog arholiadau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylai athrawon ganiatáu 72 awr cyn ceisio mewnbynnu'r marc/canlyniad.

Os oes marc/canlyniad anghywir wedi'i gyflwyno, rhaid i ganolfannau lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon i ofyn am ddiwygiad.

### Centre Mark Change Request / Cais am Newid Marciau Canolfan

**Request to change marks/ grades already submitted (internally assessed work) /Cais i newid marciau/graddau a gyflwynwyd eisoes (gwaith a aseswyd yn fewnol)**

1. Centre Number / Rhif y Ganolfan *

   Number must be between 0 ~ 79999

2. Centre Name / Enw'r Ganolfan *

   Enter your answer

3. Candidate Number / Rhif yr Ymgeisydd *

   The value must be a number


# UWCHLWYTHO AR IAMIS

Gofynnir i ganolfannau uwchlwytho'r samplau unedau yn electronig dros IAMIS.

Bydd tudalennau mewnbynnu i'w gweld fel arfer fel yr amlinellir ar dudalennau 2-17.

Unwaith y bydd y botwm cyflwyno wedi'i glicio a'r samplau wedi'u dethol, gall canolfannau uwchlwytho gwaith yn syth.
**D.S. Nid oes angen aros tan y bydd cod wedi'i gynhyrchu NA threulio 'cyfnod yn callio' ar ôl cyflwyno canlyniadau cyn uwchlwytho ar IAMIS.**
**Nid oes gan y canolfannau swm penodol o waith i'w uwchlwytho, dylid uwchlwytho'r holl waith erbyn / ar y dyddiad cyflwyno marciau a samplau o waith.**


Bydd y sgrin fewnbynnu sy'n dangos rhestri o ymgeiswyr fesul pwnc/papur ychydig yn wahanol gan y bydd yr eicon 'Cwmwl Uwchlwytho' i'w weld.





Cliciwch ar y gwymplen dan y golofn "gradd" i nodi canlyniadau "Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth, marciau neu Absennol" yn ôl yr angen.

**D.S. Atgoffir canolfannau i beidio ag uwchlwytho unrhyw ffeiliau tan y bydd y canlyniadau wedi'u cyflwyno a'r samplau wedi'u dethol**


Unwaith y bydd samplau wedi'u dethol ewch yn ôl i'r dudalen mewnbynnu drwy glicio ar 'gweld samplau'





Y tro hwn cliciwch ar y botwm 'uwch o'



Byddwch chi wedyn yn gallu dewis y ffeil i'w huwchlwytho o'r ffenestr sydd i'w gweld. Dewiswch y ffeil yr ydych yn dymuno ei huwchlwytho a chliciwch ar 'Agor'





Bydd y ffeiliau sydd wedi'u huwchlwytho yn cael eu harddangos gyferbyn â'r ymgeisydd o dan y botwm uwchlwytho. Os nad yw'r ffeiliau'n ymddangos, cysylltwch â CBAC




**D.S. Bydd modd uwchlwytho unrhyw fath o ffeil (h.y. word, jpeg, mp3, PowerPoint). Rhaid i bob ffeil fod yn uchafswm o 1GB. Bydd angen i ganolfannau gyfeirio at gyfarwyddyd penodol i'r pynciau o ran y math o dystiolaeth a ffeiliau sy'n cael eu derbyn ar gyfer rhai unedau/pynciau.**

Mae bar uwchlwytho newydd yn dangos cynnydd yr uwchlwytho



*Gellir gweld canllawiau penodol i'r pwnc yma e-gyflwyno (uwchlwytho IAMIS) – canllaw'r pwnc*
*https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/e-gyflwyno/*

### Methu uwchlwytho ffeil

1. Agorwch y ffeil, Dewisiadau Cadw a chadwch fel ffeil newydd gydag enw gwahanol a'i huwchlwytho
2. Neu rhowch y ffeil mewn ffolder zip a'i huwchlwytho

Dylai hyn ddatrys unrhyw broblemau uwchlwytho.

**Fel arfer disgwylir i waith ymgeisydd gael ei uwchlwytho fel un ffeil ond, yn dibynnu ar ganllawiau pynciau penodol, bydd y system yn caniatáu i nifer o ffeiliau gael eu huwchlwytho ar gyfer ymgeisydd.**

### Uwchlwytho Grŵp

**Mae rhai pynciau'n defnyddio dull uwchlwytho grŵp neu swyddogaeth gweinyddu, mae'r canllaw pynciau IAMIS yn cynnwys y gofynion ar gyfer y pynciau hyn e-submission-iamis-upload-subject-guide-2024.pdf (wjec.co.uk)**




Os yw canolfan yn gweld ei bod wedi uwchlwytho'r ffeil anghywir gall ddileu unrhyw ffeil sydd wedi'i huwchlwytho **<u>hyd at y dyddiad cyflwyno ar gyfer y gyfres honno.</u>**

## Adroddiadau Cymedrolwyr

Bydd Adroddiadau'r Cymedrolwyr ar gael ar y system o ddiwrnod y Canlyniadau.

Gellir gweld yr adroddiadau ar gyfer cymwysterau Lefel Mynediad, Llwybrau Ieithoedd Modern, L1/2 Dyfarniad Galwedigaethol, Lefel 1 Lladin a chymwysterau L3 Cymhwysol drwy glicio ar 'Edrych ar Adroddiad y Cymedrolwr' ar sgriniau'r pwnc/papur.

Ar gyfer cymwysterau Llwybrau Mynediad, mae'r rhain i'w cael ar ein gwefan ddiogel dan 'Canlyniadau' > 'Llwytho i Lawr – Argraffu Canlyniadau.'

Bydd pob adroddiad yn cael ei ddangos fesul uned a lefel ar gyfer pob pwnc.

## Llinell Gymorth

Mae llinell gymorth benodol ar gael os hoffech holi ynglŷn ag unrhyw agwedd ar ddefnyddio'r system ar-lein.  Mae'r llinell gymorth hon ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9:00a.m. i 5:00p.m.

Manylion cyswllt:

Cymwysterau Llwybrau


e-bost: llwybrau@cbacwjec.co.uk

Rhif ffôn: 029 2026 5444

# Atodiad 1 – Gwahodd cyfrifon Gweinyddol/Defnyddiwr.

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i'r Porth. Cliciwch ar eich enw/rhif canolfan ar yr ochr dde.


Cliciwch ar 'Rheoli Defnyddwyr' o'r ddewislen sy'n ymddangos. Bydd hyn yn codi tudalen newydd fel y gwelir yn y sgrinlun isod.




Gwahoddwch ddefnyddiwr newydd trwy glicio ar 'Gwahodd Defnyddiwr'.




Mewnbynnwch fanylion y defnyddiwr, gan gynnwys ei enw, ei ddewis iaith, a'r cyfeiriad e-bost yr ydych am i'r gwahoddiad gael ei anfon ato.
Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis y 'Math o Gyfrif' cywir wrth wahodd defnyddiwr, gan y bydd hyn yn diffinio beth fydd gan y defnyddiwr fynediad ato.




## ***Math o gyfrif***

***Cyfrif gweinyddol*** *– Mae gan gyfrifon gweinyddol yr un mynediad â chyfrifon swyddogion arholiadau. Mae'n caniatáu i chi wneud cofrestriadau, gweld canlyniadau, gwahodd defnyddwyr newydd ac ati. Rydym yn argymell y math hwn o gyfrif ar gyfer timau swyddfa arholiadau.*

***Cyfrif defnyddiwr*** *– Bydd cyfrifon defnyddwyr yn gallu gweld adnoddau, Adolygiadau Arholiadau Ar-lein, ac nid oes ganddynt yr un mynediad â swyddogion arholiadau. Rydym yn argymell y math hwn o gyfrif i athrawon.*




Ar ôl i chi lenwi'r manylion a sicrhau bod y cyfeiriad e-bost yn gywir cliciwch 'Anfon Gwahoddiad'.





Bydd y defnyddiwr newydd hwn rydych chi wedi'i wahodd yn derbyn e-bost sy'n cynnwys cyfrinair dros dro, a fydd yn caniatáu iddo sefydlu ei gyfrif.

# Dileu Cyfrifon

Dileu defnyddiwr o'r Porth. Mae angen i chi glicio ar eich enw/rhif canolfan yng nghornel dde uchaf y dudalen ac yna dewis 'Rheoli Defnyddwyr' o'r ddewislen sy'n ymddangos'.




Bydd hyn yn agor eich tudalen Rheoli Defnyddwyr. I ddileu defnyddiwr, cliciwch ar y tri dot gyferbyn â'r enw/cyfrif yr hoffech chi ei ddileu. Yna dewiswch 'Dileu Defnyddiwr'.



## Atodiad 2
## Pa bynciau sydd angen E-gyflwyno

## Llwybrau

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| Llwybrau Mynediad | Saesneg Ychwanegol | 6007<br>6300 - 6355 | Pob uned |
| | Y Creadigol, Y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio | 6006<br>6110 – 6343 | Pob uned |
| | Byw'n Iach a Ffitrwydd | 6011<br>6103 – 6172<br>(6430-6435) Ymarferol | Pob uned |
| | Dyniaethau | 6005<br>6102 - 6294 | Pob uned |
| | Defnyddwyr TGCh | 6010<br>6380 - 6407 | Pob uned |
| | Byw'n Annibynnol | 6002<br>6100 – 6202 | Pob uned |
| | Mathemateg | 6009<br>6370 - 6377 | Pob uned |
| | Datblygiad Personol a Chymdeithasol | 6001<br>6100 – 6118 | Pob uned |
| | Cynnydd Personol | 6000<br>6051 - 6080 | Pob uned |
| | Paratoi i Weithio | 6003<br>6109 – 6223 | Pob uned |
| | Gwyddoniaeth Heddiw | 6004<br>6110 - 6212 | Pob uned |
| | Cymraeg Ail Iaith | 6012<br>6365 - 6369 | Pob uned |
| Ieithoedd Modern | Ffrangeg | 6600 - 6609 | Pob uned |
| | Almaeneg | 6610 - 6619 | Pob uned |
| | Sbaeneg | 6620 - 6629 | Pob uned |
| | Eidaleg | 6630 - 6639 | Pob uned |
| | Mandarin | 6640 - 6649 | Pob uned |
| | Japanaeg | 6650 - 6659 | Pob uned |
| Cymraeg Gwaith | Cymraeg Gwaith | P90CCA<br>P91CCA<br>P911CA<br>P951CA<br>P922CA<br>P952CA<br>P933CA<br>P953CA | Pob uned |

## Cymwysterau Cyffredinol Eraill

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | Mathemateg (Rhifedd) | 6300QC/CCL-2 | Cydran 2 |
| | Mathemateg (Rhifedd) | 6300QC/CCL-3 | Cydran 3 |
| | Gwyddoniaeth | 6430QC/CCL-2 | Cydran 2 |
| | Gwyddoniaeth | 6430QC/CCL-3 | Cydran 3 |
| | Saesneg | 6700QCL-2 | Cydran 2 |
| | Saesneg | 6700QCL-3 | Cydran 3 |
| | Cymraeg | 6020CCL-2 | Cydran 2 |
| | Cymraeg | 6020CCL-3 | Cydran 3 |
| Lefel 1 Tystysgrif | Lladin | 951301/51 | Astudio Gwareiddiad Rhufain |

## Dyfarniadau Galwedigaethol/Technegol (Lefel 1/2)

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| Dyfarniadau Galwedigaethol | Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig - hen fanyleb (Cymru yn unig) | 951201/W1<br>951301/W1 | Uned 2<br>Uned 3 |
| | Y Creadigol a'r Cyfryngau | 985201/W1 –<br>977301/W1 | Uned 2<br>Uned 3 |
| | Gweithredu Digwyddiadau | 5599U2/N2<br>5599U3/N3 | Uned 2<br>Uned 3 |
| | Twristiaeth | 980101/W1<br>980301/W1 | Uned 1<br>Uned 3 |
| | Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio | 5639/N1<br>5639N2 | Uned 1<br>Uned 2 |
| | Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi | 5259/N2<br>5259/N3 | Uned 2<br>Uned 3 |
| | Lefel 1/ 2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cyfathrebu Busnes Byd-eang (Ffrangeg | 5879N1<br>5879N2<br>5879N3 | Uned 1<br>Uned 2<br>Uned 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cyfathrebu Busnes Byd-eang Almaeneg | 5889/N1<br>5889/N2<br>5889/N3 | Unit 1<br>Uned 2<br>Uned 3 |
| | Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Cyfathrebu Busnes Byd-eang Sbaeneg | 5899/N1<br>5899/N2<br>5899/N3 | Uned 1<br>Uned 2<br>Uned 3 |
| Dyfarniadau Technegol Galwedigaethol | Adeiladu’r Amgylchedd Adeiledig – (Lloegr yn unig) | E819U2<br>E819U3 | Uned 2<br>Uned 3 |
| | Peirianneg | 5799U1/N1<br>5799U2/N2 | Uned 1<br>Uned 2 |
| | Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr yn unig) | E309U2 | Uned 2 |
| | Lletygarwch ac Arlwyo | 5409U2/N2 | Uned 2 |
| | TGCh | 5539U2/N2 | Uned 2 |
| | Busnes Adwerthu | 5789U2/N2<br>5789N3 | Uned 2<br>Uned 3 |

**Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol (Lefel 3)**

| **Cyfres** | **Cymhwyster** | **Cod yr Uned/Pwnc** | **Enw'r Uned** |
|---|---|---|---|
| Busnes | Cymhwysol (hen fanyleb) | 4513U2/N2<br>4513U5/N5 | Uned 2<br>Uned 5 |
| | Troseddeg | 4543U1/N1<br>4543U3N3 | Uned 1<br>Uned 3 |
| | Gwyddor Bwyd a Maeth | 4563UA/NA<br>4563U3/N3<br>4563U4/N4 | Uned 1<br>Uned 3<br>Uned 4 |
| | Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr yn unig) | 4573U2<br>4573U3<br>4573U4 | Uned 2<br>Uned 3<br>Uned 4 |
| | Gwyddor Feddygol | 4463U2/N2<br>4463U3/N3<br>4463U4/N4 | Uned 2<br>Uned 3<br>Uned 4 |
| | Arfer Adeiladu Proffesiynol | 4903U1/N1<br>4903U4/N4 | Uned 1<br>Uned 4 |
| | Twristiaeth (hen fanyleb) | 4583U2/N2<br>4583U4/N4 | Uned 2<br>Uned 4 |
| | Busnes (Newydd) (Cymru yn unig) | 4783U2/N2<br>4783U4/N4 | Uned 2<br>Uned 4 |
| | Twristiaeth (Newydd) (Cymru yn unig) | 4803U3/N3<br>4803U4/N4<br>4803U5/N5 | Uned 3<br>Uned 4<br>Uned 5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4803U6/N6<br>4803U7/N7<br>4803U8/N8 | Uned 6<br>Uned 7<br>Uned 8 |
| | Chwaraeon (Cymru yn unig) | 4923U3/4943N3<br>4923U4/4923N4<br>4923U5/4923N5<br>4923U6/4923N6<br>4923U7/4923N7<br>4923U8/4923N8<br>4923U9/4923N9 | Uned 3<br>Uned 4<br>Uned 5<br>Uned 6<br>Uned 7<br>Uned 8<br>Uned 9 |

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Lefel 2/3) IGCGP (Cymru yn unig)**

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| | GChDDP: Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith | 4953UZ | Uned 3 |
| | GChDDP: Ymarfer a Theori (L2) | 5962U1/N1 - 5962UQ/NQ | Uned 200 – Uned 315 |
| IGCGP | GChDDP: Ymarfer a Theori (L3) | 4963U1/N1 - 5962UM/NM | Uned 208 – Uned 329 |
| | Egwyddorion a Chyd-Destunau Uned 2 | 5972U2/5972N2 | Uned 2 |
| | Egwyddorion a Chyd-destunau (L3) | 4973U1/4973N1<br>4973U3/4973N3<br>4973U4/4973N4<br>4973U5/4973N5<br>4973U6/4973N6<br>4973U8/4973N8<br>4973U9/4973N9 | Uned 1<br>Uned 3<br>Uned 4<br>Uned 5<br>Uned 6<br>Uned 8<br>Uned 9 |

## CBC a'r Project Estynedig

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen | Project Unigol | 90S9U1/90S9N1 | **Uned 1** |
| | Her Menter a Chyflogadwyedd | 90S9U2/90S9N2 | **Uned 2** |
| | Her Dinasyddiaeth Fyd-eang | 90S9U3/90S9N3 | **Uned 3** |
| | Her y Gymuned | 90S9U4/90S9N4 | **Uned 4** |

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch | Project Unigol | 90S3U1/90S3N1 | **Uned 1** |
| | Her Menter a Chyflogadwyedd | 90S3U2/90S3N2 | **Uned 2** |
| | Her Dinasyddiaeth Fyd-eang | 90S3U3/90S3N3 | **Uned 3** |
| | Her y Gymuned | 90S3U4/90S3N4 | **Uned 4** |

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| Lefel 3 Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch | Project Cymuned Byd-eang | 9503U1/9503N1 | **Uned 1** |
| | Project Cyrchfannau'r Dyfodol | 9503U2/9503N2 | **Uned 2** |
| | Project Unigol | 9503U3/9503N3 | **Uned 3** |

| Cyfres | Cymhwyster | Cod yr Uned/Pwnc | Enw'r Uned |
|---|---|---|---|
| | Lefel 3 Project Estynedig | 950003/950053 | |

## ATODIAD 3

**Mae arweiniad pellach i'w gael ar ein tudalennau uwchlwytho e-gyflwyno**

**https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/uwchlwytho-e-gyflwyno**

## Cyngor/canllawiau pellach

Anfonwch e-bost gyda manylion eich ymholiad i Llwybrau@cbac.co.uk

Pe bai unrhyw anawsterau technegol yn cael eu nodi gan ganolfan bydd y tîm Llwybrau'n asesu'r ymholiad ac yn uwchgyfeirio i dîm TG CBAC yn ôl yr angen